WG35 S 130

# MARWNAD;

NEU,

# ALARNAD,

AM Y

PARCHEDIG

# *WILLIAM MICHAEL*;

## Yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn, Gorph. y 14g, 1824:

*Derbyniwyd ef i'r winllan, yn yr 16g o'i oed i Eglwys y Dre'fach, Plwyf Llangeler, Swydd Gaerfyrddin.*

Terfynodd ei yrfa yn y Weinidogaeth yn Saron, Plwyf Llandybie, yn 35 oed.

Ar Dôn a elwir "Ymadawiad y Brenhin."

---

GAN

**JOHN LEWIS,**

*Lletty'r-ywen, Llanfihangel-Aberbythych.*

---

Ar yr achlysur yma, myfi a anturiais ganu; ni bu fy ngwaith erioed o'r blaen mewn *print*, ac yr wyf yn siwr na buasau y waith hon hefyd, oni buasau i daer annogaeth fy mhrodyr fy nghorchfygu, gan hynny nid wyf yn ewyllysio i'r gwaith hwn fyn'd yn Gân Ffair na Marchnad, nid am fy mod yn ofni collu'r elw, ond gyda golwg ar anaddasrwydd y cyfryw leoedd i gyhoeddu yr hyn a gynnwysir yn y gan.

---

*LLANDEILO:*

*Argraffwyd gan John Davies.*

X2053111880

## MARWNAD, &c.

---

FY anwyl frodyr mwyn caredig,
Rhoddwch osteg i'm yn ystig,
Ac i'm cân o goffadwriaeth,
Am un oddiyma, hedodd ymaeth,
Sef, WILLIAM MICHAEL, dawel dyner,
Aeth o'r byd i wlad uchelder:
Canlynodd Dduw yn ei fyw, er pob rhyw chwerw groesau,
A than ddwylaw oeron angau,
Ar ei gynnydd Ef a ganau,
Credu 'r wyf i *William* huno,
A'r briodas drwsiad drosto;
A'i lamp yn llawn o'r olew iawn, y ddwyfol ddawn ddymunol,
Yr hwn sy'n cynneu yn drag'wyddol,
Nid gau-beth byd, ond gobaith bywiol.

Rhai mynudau cyn terfynu,
Fe fu *William* yn cynghoru;
Ag yn dwe'yd nad oedd a ddaliau,
Ond gwaed y groes yngwyneb angau;
Annogeu 'i frodyr gyda hynny,
'N siriol iawn i ddechreu canu,
Mi wela 'mhell, y wlad sydd well, gan Dduw ir pererinion,
Lle mae pob un ar lun Angylion,
Ond yn cario harddach coron;

Caru'n gysson canu am Iesu,
Oedd ar derfynau wrth derfynu,
Felly'r aeth, i'dd ei daith, mewn effaith peroriaeth,
At Awdwr doeth yr Iachawdwriaeth,
O tu fewn i'r etifeddiaeth.

'Nawr mae galar mawr yn Saron,
Ar ol un, a fu mor ffyddlon;
Fe fu bymtheg o flynyddau,
Ar y maes, yn loyw'i arfau;
Ond, y nawr fe hedodd ymeth,
I fwynhau ei etifeddiaeth,
I blith y llu, hyfryda fry sy'n canu ar delynau;
Ac yno'n seinio nefol odlau,
Ynghyd a'r côr, i'r Hwn a'i carai;
Yn *Mhorth-y-rhyd* yn fisiol byddau,
A *Gwaun-glyn-da* am rai blynyddau,
Fe fu i Dduw, yn ei fyw, yn weithiwr difefel;
Gwedi urddo, yn ei arddel,
Yn y tywydd fel y tawel.

Fe ddeisyfodd cyn terfynu,
Am y brodyr i bregethu;
Y parchedig *Daniel Davies*,
A'r brawd *Dafydd Bowen* ddawnus;
Yn mhlith pa rai y bu'n addolu,
Gwir ganlynwyr anwyl Iesu;
Fe ddaeth y wŷs o'r nefol lŷs i'w alw ef oddiyma;
Byddwn barod am y pura,
Mae hi'n nesu i rhyw rai'n nesa;
Câsawn fai a cheiswn faddeu,
Pawb at ei Luniwr ar ei luniau;
Fe ddaw'r wŷs, odd' fri ar frys, i'n galw ninnau'n unig,

O fewn i'r Tŷ rhagderfynedig,
Lle nad oes gwaith na chwaith ddychymmig.

Fe ddywedodd *Daniel Davies*,
Pan y clywais, bum helbulus;
Daeth gair yr Arglwydd atta'n union,
Gan ddwe'yd, da da, wâs da, a ffyddlon,
Buost ffyddlon ar ychydig,
Ond yn awr cai fyn'd i'r golud;
Gwlad sy'n llawn, o dduwiol ddawn, a ffrydiau o gwîn nefolaidd;
Ti gai nofio yn ddiddiwedd,
Yn y cariad a'r gogonedd,
Gwlad, lle nad oes, dyffryn Baca,
Gwlad sy'n llawn o fywiol Fanna,
Gwlad o hedd, tu draw i'r bedd, yw gwedd yr Hwn a'i carodd,
Ac yno'n byw i Dduw'n fyddinoedd,
Yn Offeiriaid a Brenhinoedd!

Fe ddywedodd *Dafydd Bowen*,
Am y brawd oedd wedi gorphen;
Iddo ddilyn yn ei amser,
Yn ol siampl Paul a Pheder;
Ymdrechu yn y weinidogaeth,
A thrwy Grist yn gallu pob peth;
Ehedodd ffwrdd, at y bwrdd, sydd wedi ei arlwyo,
I wel'd gogniant Iesu yno,
A bod byth yn debyg iddo,
Ca'dd ei alw'n foreu i'r Winllan,
Ac yno bu, ddiwrnod cyfan;
Gwnaethyn drech deg, am ddyddiau ddeg, dros enw' i Dduw yn ddiwyd;

Ac, y nawr, ca'dd fyn'd i'r gwynfyd,
Ti fewn i'r llen at Bren y Bywyd!!

Nawr mae'r plant, fu dan ei ofal,
Yn ymddifaid yn yr anial;
Ac er eu bod hwy felly'n weiniaid,
Mae Duw'n gwenu ar drueiniaid;
Rhodd driugain cedyrn Israel,
O blaid amddifaid *William Michael;*
Duw rotho' ras, tr'ont ar y ma's, ni phar hi, yn hir ryfel;
Cyn cael myn'd i'r ddinas dawel,
I gyfeillach *William Michael.*
Gweddiwn ninnau er mewn galar,
Boed dywyllys, ar y ddaear;
Fel delo fîl, o'r ysig hîl, i lwybr cûl y bywyd,
O rai a gaffo'u harddel hefyd,
Yn ngole'r haul ym mhoreu 'r Ailfyd.

Fe fu'n ddyfal yn eu ddyddiau,
Cyhoeddodd Grist a'i ddwyfol ràdau;
Crist yn sylfaen, Crist yn fywyd,
Crist yn Noddfa, gadarn hefyd;
Ac fe ddwedodd dan law Angau,
Mae Crist yn ddigon mawr i minnau;
Trwy rîn' y gwa'd, mae'n rhoi iachad, yn mhob gwlad i gleifion;
Ac yn chwyddedig dònau'r afon,
Bendigedig! mae E'n ddigon;
Cyhoeddi'r oedd y wir athrawiaeth,
Wrth bregethu'r Iachawdwriaeth,
Crist ei hun, yn Dduw a dyn, fu'n sefyll mîn y cleddau;

Duw Dad yn creu, Duw Fab yn dioddau,
Duw Yspryd Glân yn puro'r Perlau.

Gwyn ei fyd y Tad a'i magodd,
Bendith oedd i'r bronau sugnodd;
Eu berth'nasau na alerwch,
Mae *William* gwedi meddi heddwch;
Yn mhlith y Saint y'ngwlad goleuni,
Mewn harddach lle a phurach cwmni,
Gyda'r Oen, lle nad oes poen, ac yno yn frenhinoedd;
Pob un yn cânu i'r hwn a'u cannodd,
Am y Gwaed mewn pryd a'u prynodd;
Gyda Christ a'i Apostolion,
A llawer mîl o'r hen Ferthyron,
Wrth gofio'r cwrdd, fydd ar y bwrdd, rhyw foreu draw yn gwledda;
Er mewn adfyd enaid yma,
Pwy na chanai, Haleluia!

Duw a Thad ein trugareddau,
Attat Ti mae'n herfyniadau;
Am I't yn siriol, roddi'i Saron,
Un o'r Ffydd, i fod yn ffyddlon;
Un i fagu, union Fugail,
Yn ei ddydd fel *William Michael*,
Porthu'r Wyn, oedd yn fwyn, lle byddau ymhob annedd;
Eu cynnyddu'r oedd yn rhyfedd,
A didwyll laeth Gair y gwirionedd;
Rhwysg y Weddw, Tad ymddifed,
'Does ond Tydi all lanw'r golled;
Portha'th braidd, fryg a gwraidd, a'th beraidd fendithion;

Tyn hwy dan, dy aden dirion,
Fel y casgl giâr ei chywion.

Yn awr mae galar trwy'r Eglwysi,
Ffordd oedd *William* yn pregethu;
Cwyno'r ŷm fel daiarolion,
Ar ol un, a fu mor ffyddlon;
Ond yn y Nef mae gorfoleddu,
Wrth dderbyn un, o'r duwiol deulu;
Lle nad oes haul, nag eisiau i gael, ond Adda'r ail ei hunan,
O! am aden ffydd i hedfan,
I'r lle di bechod, fawr a bychan;
Fe aeth un o'r brodyr ffyddlon,
Adre' at y Cwmmwl Tystion,
Rhai aeth o'i fla'n, trwy ddwr a thân, i'r Ganaan lân gynnes,
Lle nad oes llew, na bwystfil gormes,
Haul na gwres, na phair, na ffwrnes.

Byddwn ninneu bawb yn barod,
Ein dyddiau sydd, bob dydd yn darfod;
Ar fyr i'r siwrneu, ni wynebwn,
Ar hyd lwybr na's dychwelwn;
Ceisiwn Geidwad yn ddiragrith,
"Nid oes yn Nghrist ddim damnedigaeth,"
Ceidwad yw, i ddynol ryw, i'w cadw'n fyw rhag angau;
Glynwn wrtho ar ein glyneu,
Mae'n addo a'r go'dd ei fodd i faddeu;
Os treulio'n dyddiau, yn ol ein meddwl,
Mae Barn gyhoeddus gwedi'r cwbwl;
Cwympwn nawr, fach a mawr, i lawr wrth draed yr Iesu;

Gan edrych, a oes gobaith inni,
I gael cyfran yn Ei gyfri.

Wrth son am *William* ar ei siwrnau,
Cofiwn bawb, beth raid i ninnau;
Ffarwel mwy gyfarfod yma,
Mewn Cwrdd chwarter, na Chymanfa;
Ffarwel, gydweithio yma'n ddiwyd,
Nes cael cwrdd ar fwrdd y bywyd,
Lle na oes plâ, na neb yn glâ', na ffrwyth, na phren gwa'rddedig;
Nac un bwystfil câs gwenwynig,
Yn y, Baradwys Wynfydedig!
Ffarwel mwy cydgasglu Manna,
Ffarwel deithio'r anial garwa,
Gogoniant mwy, sydd ganddynt hwy, wedi ei ddatguddio;
Môr yn llawn, a byth heb *dreio,*
Tòn ar dòn, heb fesur arno!!

**DIWEDD.**

*Davies, Argraffydd, Llandilo.*